Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dysgu Cymraeg Morgannwg/Learn Welsh Glamorgan

**Bloc G**
**Prifysgol De Cymru/University of South Wales**
**Trefforest**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF37 1DL**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Dysgu Cymraeg Morgannwg/Learn Welsh Glamorgan

Sefydlwyd Dysgu Cymraeg Morgannwg (DCM) yn 2016 o ganlyniad i ailstrwythuro sectorol a sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (GDCG). Mae DCM yn un o 10 o ddarparwyr y Ganolfan ac yn gyfrifol am ddarparu cyrsiau Cymraeg i oedolion yn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr ac ar-lein. Lleolir DCM o fewn y Gyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg ac mae Cyfarwyddwr DCM yn atebol i reolwr llinell dros dro sy'n cynrychioli Deon y gyfadran. Cyflogir holl staff y ddarpariaeth gan y brifysgol.

Mae gan DCM tua 1560 o ddysgwyr unigol dros dreigl o dair blynedd, gyda niferoedd yn codi i 1831 erbyn mis Gorffennaf 2024. O ran cyfanswm dysgwyr, mae gan DCM tua 2,600 o ddysgwyr dros dreigl o dair blynedd, gyda niferoedd yn codi i 3126 o ddysgwyr erbyn Gorffennaf 2024. Erbyn Hydref 2024, mae'r niferoedd wedi codi i 2121 o ddysgwyr unigol. Mae'r ddarpariaeth yn derbyn £996,067 yn flynyddol trwy grant craidd gan y GDCG. Yn ogystal â'r ddarpariaeth brif ffrwd, mae DCM yn gyfrifol am ddarparu prosiectau atodol, er enghraifft 'Codi Hyder' o fewn Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, 'Cymraeg yn y Cartref' sy'n gweithio gyda theuluoedd ac ysgolion, ac yn darparu cyrsiau 'Cymraeg Gwaith' i sefydliadau amrywiol fel y Bathdy Brenhinol, a Gyrfa Cymru.

Darperir rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau ar-lein ac wyneb-yn-wyneb sy'n amrywio o ran hyd a dwyster. Yn ogystal, darperir rhaglen o gyrsiau atodol a digwyddiadau cefnogi dysgwyr, er mwyn hwyluso'r daith o ddysgwr i siaradwr gweithredol.

Cyflogir 17 aelod o staff craidd, gan gynnwys 5 tiwtor amser llawn, 1 tiwtor 0.5, 1 tiwtor ffracsiynol ynghyd â 37 tiwtor cysylltiol. Cyfarwyddwr DCM sy'n gyfrifol am arwain y ddarpariaeth yn strategol ac yn weithredol.

## Crynodeb

Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg (DCM) wedi cynyddu nifer y dysgwyr sy’n mynychu cyrsiau’n sylweddol ers ei arolygiad diwethaf yn 2018. Mae’r twf hwn yn rhannol yn sgil nifer y cyrsiau sydd bellach ar-lein. Mae llawer o ddysgwyr DCM yn dysgu ar-lein ac mae tua hanner y dysgwyr yn byw y tu allan i ardal ddaearyddol y darparwr.

Mae cynnydd yng nghostau llogi lleoliadau allanol wedi codi’n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn wedi arwain at gwtogi ar y cyfleoedd i ddysgu mewn lleoliadau cymunedol. Serch hynny, mae’r darparwr yn gweithio’n fwriadus i gynnal darpariaeth i fodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a’r gymuned leol. Enghraifft nodedig o hyn yw’r ffordd, ers diwedd y pandemig, mae arweinwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i ddymuniadau dysgwyr gan ddechrau dod â chyrsiau dwys yn ôl i safle’r brifysgol a’u cynnal fel cyrsiau wyneb yn wyneb.

Mae’r darparwr wedi llwyddo i greu cymuned glòs a gofalgar, boed hynny wyneb yn wyneb neu ar-lein gyda budd addysgol dysgwr wrth wraidd ei waith. Mae bron pob dysgwr yn mwynhau dysgu yn fawr ac yn dangos cymhelliant cryf dros ddysgu’r Gymraeg.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ddisgwyliadau uchel o’u dysgwyr. Maent yn herio dysgwyr i wneud y cynnydd gorau posibl a datblygu eu medrau iaith, yn arbennig eu llafaredd, gan eu hymestyn a’u hannog i greu iaith yn annibynnol.

Mae’r darparwr yn hwyluso cyfleoedd gwerthfawr iawn i’r dysgwyr ddefnyddio’r Gymraeg yn fwriadus mewn gwahanol gyd-destunau trwy amrediad effeithiol o weithgareddau a thrwy hyrwyddo cyfranogiad y dysgwyr mewn digwyddiadau tu hwnt i wersi ffurfiol. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio’r Gymraeg yn hynod fuddiol tu allan i’w gwersi ac yn gwneud cynnydd cryf tuag at ddod yn siaradwyr gweithredol.

Mae arweinwyr yn monitro perfformiad a sicrhau ansawdd yn effeithiol sydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddysgu ac addysgu. Maent hefyd yn gweithio’n ddiwyd gydag uwch reolwyr Prifysgol De Cymru tuag at ddatblygu ac ehangu cyfraniad y darparwr at gynllunio ieithyddol a hyfforddiant y brifysgol yn fewnol ac yn allanol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r darparwr i barhau i wella:

A1 Cysoni’r arferion da i gefnogi dysgwyr i wella eu hynganu

A2 Parhau i ddatblygu rôl strategol y darparwr er mwyn cyfrannu’n llawn at gynllunio ieithyddol a hyfforddiant o fewn Prifysgol De Cymru

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion yn cael ei werthuso yn ystod yr arolygiad llawn canlynol o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â darparu cyfleoedd i ddysgwyr fireinio eu medrau iaith a dysgu mwy am ddiwylliant, hanes a materion cyfoes trwy gyfrwng llenyddiaeth a barddoniaeth.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae nifer y dysgwyr sy’n mynychu cyrsiau Dysgu Cymraeg Morgannwg wedi cynyddu’n sylweddol ers ei arolygiad diwethaf. Mae bron pob un tiwtor yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn cyfleu eu cariad at yr iaith i’r dysgwyr sydd yn ei dro yn dylanwadu’n gadarnhaol ar eu hagweddau a’u cynnydd ieithyddol. Mae bron pob dysgwr yn dangos cymhelliant cryf dros ddysgu’r Gymraeg ac yn gwerthfawrogi manteision dwyieithrwydd.

Mae’r tiwtoriaid yn meithrin perthnasoedd gweithio cynhyrchiol â’u dysgwyr gan greu awyrgylch ysgogol lle mae dysgwyr yn fodlon defnyddio eu hiaith heb ofni gwneud camgymeriadau. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr ar draws y lefelau mewn dosbarthiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein yn gwneud cynnydd cryf ar eu taith iaith tuag at ddod yn siaradwyr gweithredol. Maent yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus ac yn adeiladu ar hyn i greu iaith gynyddol rugl yn unol â’u lefel.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ddisgwyliadau uchel o’u dysgwyr. Maent yn herio dysgwyr i wneud y cynnydd gorau posibl a datblygu eu llafaredd trwy eu hannog i ddefnyddio iaith estynedig gan amrywio cystrawennau a geirfa yn barhaus. Trwy gynllunio’n ofalus, maent yn gosod amcanion pendant i’r gwersi ac yn esbonio tasgau’n glir, gan fodelu ac ailadrodd yn fuddiol cyn gofyn i’r dysgwyr gyflawni’r tasgau eu hunain. Maent yn sicrhau bod cyflymder y gwersi’n sionc a bywiog sydd yn symbylu dysgwyr i ganolbwyntio, a thrwy ddefnyddio technegau holi amrywiol yn fedrus, maent yn eu hymestyn a’u hannog i greu iaith yn annibynnol. Mae bron pob dysgwr yn gwrando’n astud ac yn ymateb yn addas yn unol â’u lefel, ac mae llawer ohonynt yn siarad Cymraeg yn ddigymell â’i gilydd ac â’r tiwtor.

Yn ystod gwersi ar-lein, mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio ystafelloedd sgwrsio yn bwrpasol i roi cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a datblygu eu medrau llafaredd a darllen mewn parau a grwpiau bach. Maent yn defnyddio ystod eang ac ysgogol o adnoddau a thechnoleg i gadw diddordeb y dysgwyr yn fyw.

Mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio iaith darged yn fuddiol. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o diwtoriaid yn gwneud defnydd digon effeithiol o’r iaith darged gan ddefnyddio Saesneg yn ddiangen. Maent yn dueddol o ofyn i ddysgwyr gyfieithu’n ormodol o’r Gymraeg i Saesneg. Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn rhoi sylw priodol i

ynganu cywir ond nid yw hyn yn digwydd yn ddigon cyson gyda lleiafrif o diwtoriaid. Mae ynganiad ychydig o ddysgwyr, yn enwedig dysgwyr ar gyrsiau ar-lein, yn wan.

Mae llawer o ddysgwyr lefelau mynediad a sylfaen yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o strwythurau'r iaith yn gadarn. Maent yn medru holi ei gilydd yn ystyrlon a phersonoli atebion yn briodol gan fynegi barn yn bwrpasol. Mae llawer o ddysgwyr ar draws y lefelau yn defnyddio amrywiaeth o gystrawennau ac amseroedd y ferf yn gynyddol briodol wrth drafod yn unol â'u lefel. Erbyn cyrsiau lefel uwch, maent yn llwyddo i ddatblygu dealltwriaeth ac ystwythder ieithyddol, er enghraifft wrth droi brawddegau o'r amhersonol i'r goddefol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr lefel mynediad yn datblygu eu medrau darllen ac yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml yn gywir, ar y cyfan. Mae llawer yn darllen testunau ac yn ysgrifennu brawddegau sydd wedi'u personoli neu wedi'u trosi i'r trydydd person yn llwyddiannus. Mae ychydig ohonynt yn cael trafferth gwahaniaethu rhwng y gorffennol a'r amherffaith. Erbyn lefel sylfaen, mae llawer o ddysgwyr yn dechrau mentro i ysgrifennu yn fwy estynedig. Mae lleiafrif o'r dysgwyr ar y lefel hon yn gwneud defnydd anghywir o'r fannod ac yn defnyddio'r treiglad anghywir o fewn patrymau, o dro i dro.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr lefel canolradd yn llwyddo i ysgrifennu'n estynedig. Yn yr achosion gorau, mae'r gwaith ysgrifennu yn uchelgeisiol ac mae ychydig o ddysgwyr yn mentro cyflwyno idiomau sydd yn cyfoethogi eu gwaith. Mae ychydig o ddysgwyr yn parhau i gael trafferth gwneud defnydd cywir o 'bod', 'mae' ac 'yw'.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr lefel gloywi yn mynegi eu hunain ar lafar yn hyderus a rhugl iawn. Maent yn holi ei gilydd yn effeithiol, ac yn ynganu synau'r iaith mewn modd naturiol iawn trwy ddefnyddio geirfa amrywiol a chynhwysfawr. Maent yn amrywio cystrawennau yn rhwydd ac yn cyfuno medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu wrth ddarllen a thrafod erthyglau, llenyddiaeth a barddoniaeth gan ddehongli cerddi yn fedrus trwy drafod technegau barddonol fel cyflythreniad. Yn yr achosion gorau, mae'r dysgwyr hyn yn darllen ac yn ymateb yn ysgrifenedig i gerddi megis Ymadawiad Arthur, T. Gwynn Jones mewn ffordd aeddfed a threiddgar.

**Ciplun: Cynhyrchu siaradwyr gweithredol diwylliedig**

I ymateb i'r galw gan ddysgwyr, mae'r darparwr wedi sefydlu sesiynau 'O'r gair i'r gerdd' sy'n rhoi cyfleoedd rhagorol i'w dysgwyr feithrin eu medrau barddoni a thrafod barddoniaeth Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob aelod o'r dosbarth yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r iaith i'r eithaf yn ystod y sesiynau hyn. Mae'r dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio'n greadigol yn y Gymraeg. O ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg gweithredol diwylliedig.

Mae llawer o diwtoriaid yn asesu cyrhaeddiad y dysgwyr yn barhaus ac yn darparu adborth llafar defnyddiol sy'n cynorthwyo dysgwyr i wybod pa mor dda maent yn gwneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Maent yn rhoi sylw cyson a buddiol i ramadeg, er enghraifft trwy ddysgu sut i ddefnyddio bonau berfau afreolaidd wrth greu brawddegau mewn amseroedd gwahanol. Mae llawer o diwtoriaid yn cyflwyno adborth ysgrifenedig defnyddiol. Maent yn asesu'n drylwyr ac yn cynnig adborth clir a chynhwysfawr sy'n ysgogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau ymhellach.

Yn yr achosion gorau, mae ychydig o diwtoriaid yn annog y dysgwyr i gystadlu mewn cystadlaethau llenyddol neu farddonol mewn eisteddfodau lleol.

Mae llawer o diwtoriaid yn annog dysgwyr yn fuddiol i fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. O ganlyniad, mae tua hanner y dysgwyr yn mynychu cyrsiau atodol fel Sadyrnau Siarad a darpariaeth ychwanegol fel clybiau darllen.

Mae llawer o'r dysgwyr yn teimlo bod dysgu'r Gymraeg wedi eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y Gymraeg. Mae'r cyfleoedd i godi arian ac i stiwardio yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf wedi bod yn brofiad gwerthfawr i'r dysgwyr. Mae Côr y Dysgwyr, a gafodd ei sefydlu ar gyfer yr Eisteddfod, yn mynd o nerth i nerth. Yma, mae'r dysgwyr yn mwynhau canu a chymdeithasu yn y Gymraeg mewn lleoliadau ar draws yr ardal. Mae'r darparwr yn cydweithio'n agos iawn â nifer o bartneriaid fel y mentrau iaith lleol. Er enghraifft, mae dysgwyr presennol a chyn-ddysgwyr Dysgu Cymraeg Morgannwg yn arwain y clwb cerdded 'Cam Ymlaen' a chlwb Hanes gyda Menter Bro Ogwr.

At ei gilydd, mae llawer o ddysgwyr ar draws y lefelau yn defnyddio'r Gymraeg yn fwriadus a rhagweithiol y tu allan i wersi ffurfiol gydag aelodau o'u teuluoedd, yn y gwaith, mewn grwpiau hamdden neu ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r dysgwyr hyn yn magu hyder yn fuddiol ac yn datblygu rhuglder cynyddol mewn ystod eang o sefyllfaoedd.

**Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn gymuned glòs a gofalgar lle mae adnabyddiaeth y tiwtoriaid o'u dysgwyr yn nodwedd gref. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn sicrhau awyrgylch bositif ac ysgogol, ac o ganlyniad, mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos brwdfrydedd ac yn mwynhau eu dysgu. Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth neu gyngor arnynt.

Mae amrediad eang o gyrsiau ac mae'r darparwr yn cynnig cyngor gwerthfawr a diduedd ar ddewis y cwrs sydd fwyaf perthnasol i ddysgwyr, gan gynnwys pa gyrsiau dilynol i'w dilyn. Mae hyblygrwydd priodol i symud rhwng cyrsiau os nad yw'r cwrs yn addas neu os bydd amgylchiadau'n newid.

Mae cefnogaeth gadarn i ddysgwyr sydd angen cymorth ariannol, er enghraifft cyfraniadau tuag at gostau gofal plant, teithio ac offer technegol, ac mae'r broses o sut i wneud cais am hyn yn hysbys i'r dysgwyr. Oherwydd y gostyngiadau sydd ar gael, does dim un dysgwr prif ffrwd yn talu'r ffi lawn. Yn ogystal, cynigir nifer o gyrsiau am ddim megis cyrsiau Cymraeg yn y Cartref, clybiau darllen a Sadyrnau Siarad.

Mae gan y ddarpariaeth systemau tracio tyn i fonitro presenoldeb yn ganolog. Mae'r staff yn gweithio'n galed i sicrhau bod dysgwyr yn mynychu gwersi ac yn parhau â'u dysgu. Mae tiwtoriaid yn cysylltu'n uniongyrchol â'r dysgwyr os ydynt yn absennol o'r sesiynau er mwyn eu cefnogi i gwblhau'r gwaith a gollwyd. Mae'r swyddog datblygu yn cynnig sesiynau mentora pwrpasol i ddysgwyr sydd mewn perygl o adael cwrs, er mwyn eu cefnogi i ddychwelyd i'r dosbarth. O ganlyniad, mae rhyw chwarter o'r dysgwyr hynny wedi parhau â'u dysgu.

Mae'r darparwr yn cynnig arweiniad a chymorth gwerthfawr i hybu lles dysgwyr a hyrwyddo eu datblygiad personol. Mae'r darparwr wedi clustnodi swyddog datblygu i fod â chyfrifoldeb am gefnogi dysgwyr sydd wedi nodi bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ei rôl yw cysylltu a thrafod yr anghenion gyda'r dysgwyr yn unigol er mwyn cefnogi'r tiwtoriaid i deilwra'r ddarpariaeth ar eu cyfer.

Mae darpariaeth gref i ddysgwyr â medrau mwy datblygedig trwy gyrsiau penodol. Er enghraifft, yn y sesiwn dysgu anffurfiol 'O'r gair i'r gerdd', mae'r dysgwyr yn cael cyfle i ddadansoddi a thrafod barddoniaeth a barddoni eu hunain. Mae dysgwyr hefyd yn ysgrifennu erthyglau ar gyfer colofn fisol papur bro Cwm Cynon, 'Clochdar'.

Mae'r tiwtoriaid yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddysgwr yn gwneud defnydd effeithiol o gynllun 'Defnyddio fy Nghymraeg' a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae tiwtoriaid a'r dysgwyr yn gosod targedau i ddeall beth yw'r gofynion a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar y dysgwyr i symud ymlaen. Mae'r targedau yn rhoi her i'r dysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth yn rheolaidd ac yn cael eu hadolygu'n dymhorol. Mae tiwtoriaid yn angerddol am gadw diddordeb y dysgwyr drwy eu hannog i fanteisio ar yr amryw weithgareddau sydd yn cael eu trefnu ar eu cyfer er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cael profiadau cyfoethog wrth ddysgu Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cwisiau, gigs Cymraeg a Sadyrnau Siarad. Mewn achosion ble mae'r dysgwyr yn teimlo'n ddihyder i fynd i ddigwyddiadau cymdeithasol am y tro cyntaf, mae'r swyddog cefnogi dysgwyr yn gwneud trefniadau i gwrdd â nhw yn y lleoliad.

Mae'r darparwr yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr fynegi eu barn yn ffurfiol ac yn anffurfiol trwy holiaduron a thrafodaethau panel y dysgwyr. Mae'r darparwr wedi sefydlu cynllun cadarn i gywain barn y dysgwyr drwy wahodd pob dosbarth i ethol cynrychiolydd ar ddechrau'r cwrs. Mae bron pob un yn teimlo bod y darparwr yn gweithredu ar farn dysgwyr; er enghraifft, yn dilyn cais gan ddysgwyr, trefnwyd boreau coffi rheolaidd mewn ardaloedd fel Aberdâr ac Aberpennar lle nad oedden nhw'n cael eu cynnal cynt.

Mae trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arwain a gwella

Mae uwch arweinwyr Dysgu Cymraeg Morgannwg wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer y ddarpariaeth sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r weledigaeth wedi ei seilio'n gadarn ar greu cyfleoedd i ddysgwyr o bob cefndir ddysgu'r iaith, cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg a hybu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg.

Mae'r darparwr yn cynllunio'n strategol i ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned leol trwy gynnig ystod eang o gyrsiau ar-lein ac wyneb yn wyneb ar yr holl lefelau ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn darparu cyfleoedd buddiol i ddysgwyr gael mynediad at ddosbarthiadau sy'n datblygu eu medrau'n effeithiol.

Mae'r darparwr wedi gorfod addasu i'r ffaith bod tua hanner ei ddysgwyr yn dod o'r tu allan i'w ardal ddaearyddol. Mae arweinwyr yn adnabod pwysigrwydd cynnal dosbarthiadau wyneb yn wyneb mewn cymunedau ar draws y rhanbarth, tra hefyd yn

ymateb i ddymuniadau ac anghenion ymarferol dysgwyr sydd yn well ganddynt ddysgu ar-lein. Yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi ymateb i ddymuniadau dysgwyr i ddod â chyrsiau dwys yn ôl i safle'r brifysgol. Mae hyn wedi profi'n boblogaidd iawn gyda dysgwyr ac wedi cynnig cyfleoedd gwerthfawr ychwanegol i ddysgwyr gaffael iaith mewn sefyllfaoedd naturiol wyneb yn wyneb na fyddai'n bosibl trwy ddarpariaeth ar-lein.

O ganlyniad i gostau cynyddol, mae'r darparwr wedi gorfod cwtogi ar nifer y lleoliadau cymunedol mae'n eu defnyddio i gynnal cyrsiau. Serch hynny, mae'r darparwr yn ymdrechu i wneud defnydd effeithlon o'r lleoliadau sy'n cael eu defnyddio o hyd i hyrwyddo'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal â'r ddarpariaeth gymunedol, mae'r darparwr yn cynnig cyrsiau Cymraeg yn y gweithle a chynlluniau Cymraeg Gwaith i gyrff amrywiol yn ogystal â gweithwyr addysg uwch a staff yn y bwrdd iechyd lleol. Mae'r darparwr yn derbyn grant Cymraeg Gwaith penodol i gyflogi tiwtor sydd wedi'i leoli yn y bwrdd iechyd, gyda'r nod o sicrhau cyfleoedd buddiol i staff ddatblygu eu medrau Cymraeg er mwyn eu defnyddio yn y gweithle a gyda chleifion. Mae'r darparwr hefyd yn cynnal cyrsiau Cymraeg yn y Cartref, sy'n datblygu hyder rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol gyda'r teulu.

Drwy flaengynllunio gofalus a gofal bugeiliol effeithiol, mae'r darparwr wedi cynyddu nifer y dysgwyr sy'n mynychu cyrsiau yn sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau ac yn parhau i ddysgu ar gyrsiau dilynol. Mae lleiafrif o ddysgwyr cymwys yn dewis sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC ac mae bron pob un ohonynt yn llwyddo. Mae cynnydd a boddhad dysgwyr yn gadarnhaol.

Mae'r darparwr yn hwyluso cyfleoedd i'r dysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn fwriadus mewn gwahanol gyd-destunau trwy amrediad effeithiol o weithgareddau a thrwy hyrwyddo cyfranogiad y dysgwyr mewn digwyddiadau tu hwnt i wersi ffurfiol. Mae'r darparwr yn cynllunio'n gydwybodol i sicrhau mynediad at gyrsiau i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, ac i ddarparu cymorth effeithiol i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn effeithiol ac mae ganddynt drefniadau monitro trylwyr. Mae arweinwyr yn craffu'n gyson ar wariant i sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy ac yn darparu gwerth am arian. Mae'r cyllid craidd yn cael ei ddefnyddio yn unol ag arweiniad y Ganolfan Genedlaethol, sef bod o leiaf 85% ohono yn cael ei wario ar ddysgu ac addysgu.

Mae'r darparwr wedi ei leoli o fewn Cyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg Prifysgol De Cymru. Mae perthynas waith fuddiol rhwng y darparwr a'r brifysgol sy'n darparu cefnogaeth effeithiol mewn meysydd fel adnoddau dynol a chyllid. Mae'r brifysgol yn brigdorri 15% o gyllid y darparwr i dalu am y gwasanaethau canolog hyn.

Mae arweinydd o fewn y gyfadran yn gweithredu fel rheolwr llinell i bennaeth y darparwr a gyda'i gilydd maent yn cyfrannu'n bwrpasol at weithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella. Maent yn cydweithio'n agos wrth drafod swyddogaeth y darparwr o fewn strwythur y brifysgol. Yn ogystal, maent yn ystyried

sut i ehangu cyfraniad y darparwr o fewn cynlluniau ieithyddol strategol a hyfforddiant y brifysgol, er bod y gwaith hwn yn parhau i ddatblygu.

Mae arweinwyr y gwasanaeth yn sicrhau bod lefelau priodol o staff ar gyfer cyflawni'r amrediad o wersi sydd ar gael ar wahanol lefelau. Mae'r darparwr, mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Genedlaethol, yn darparu ystod ddefnyddiol o adnoddau, gan gynnwys offer digidol, ar gyfer tiwtoriaid i hwyluso a chyfoethogi'r dysgu.

Mae'r darparwr wedi gweithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol i fynd i'r afael ag argymhellion ei arolygiad blaenorol. Yn rhan o'i brosesau sicrhau ansawdd, mae arweinwyr yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth er mwyn adnabod cryfderau'r ddarpariaeth a'i meysydd i'w datblygu. Mae'r darparwr yn adnabod ei flaenoriaethau'n glir ac yn eu rhannu'n gamau gweithredu synhwyrol gyda llinell amser a cherrig milltir addas i fesur cynnydd dros gyfnod penodol.

Mae gweithdrefnau monitro perfformiad a sicrhau ansawdd wedi'u gwreiddio'n gadarn. Mae arweinwyr yn arsylwi tiwtoriaid yn rheolaidd ac mae'r swyddog ansawdd ynghyd â'r pwyllgor ansawdd yn ystyried anghenion datblygiad proffesiynol tiwtoriaid yn rheolaidd gan dynnu ar dystiolaeth arsylwadau i glustnodi anghenion hyfforddiant ac yna i fesur ei effaith.

Mae tiwtoriaid yn manteisio ar y broses hon i ddatblygu'n broffesiynol, a rhannu arferion ar draws y ddarpariaeth. Er enghraifft, yn sgil arsylwadau, penderfynwyd trefnu hyfforddiant i diwtoriaid ar ddarparu adborth ysgrifenedig i ddysgwyr gan arwain at ddatblygu hyder tiwtoriaid a chynyddu medrau a chywirdeb dysgwyr. Mae cyfleoedd buddiol hefyd i diwtoriaid ymweld â dosbarthiadau cydweithwyr i arsylwi a rhannu arferion da. O ganlyniad, mae'r darparwr wedi sicrhau safonau uchel o ran cynnydd dysgwyr ac addysgeg ei diwtoriaid.

## Cydymffurfiaeth statudol

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr :

- yn dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr ac ystyried barn tiwtoriaid a staff drwy eu hymatebion holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â phennaeth y darparwr, cynrychiolydd y corff rheoli/corff llywodraethol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol), a thiwtoriaid i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn ymgysylltu â dysgwyr i drafod eu gwaith ac i glywed eu barn am agweddau amrywiol ar y darparwr
- yn cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr, fel cynrychiolwyr grwpiau llais y dysgwr
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau ac yn ymgymryd â theithiau dysgu i arsylwi dysgwyr mewn gwersi ac mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynlluniau gwella'r darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff rheoli/llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddysgwyr…'* neu *'ychydig iawn o ddysgwyr…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Crown Copyright 2025: This report may be re used free of charge in any format or medium provided that it is re used accurately and not used in a misleading context. The material must be acknowledged as Crown copyright and the title of the report specified.

Publication date: 19/02/2025